

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 2 Rhagfyr 2025
Tabled on 2 December 2025

Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Bill

Sian Gwenllian **44**

Section 18, page 19, after line 37, insert –

‘() The duty to an applicant under section 76A does not come to an end in accordance with this section, if the local housing authority considers that the duty in section 76A should be extended beyond the periods specified in subsections (5) and (7).’.

Adran 18, tudalen 19, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

‘() Nid yw’r ddyletswydd i geisydd o dan adran 76A yn dod i ben yn unol â’r adran hon, os yw’r awdurdod tai lleol yn ystyried y dylai’r ddyletswydd yn adran 76A gael ei hestyn y tu hwnt i’r cyfnodau a bennir yn is-adrannau (5) a (7).’.

***Sian Gwenllian** **45**

Gyda chefnogaeth / Supported by: Joel James

Section 21, page 24, after line 21, insert –

‘() a police force in Wales.’.

Adran 21, tudalen 24, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘() heddlu yng Nghymru.’.

***Sian Gwenllian** **46**

Gyda chefnogaeth / Supported by: Joel James

Section 21, page 24, after line 34, insert –

[] Duty to prepare, publish and implement report on operation and effect of the duty to ask and act

- (1) The Welsh Ministers must, before the end of 2031, prepare and publish a report on the operation and effect of section 94A of this Act.
- (2) The report must include an assessment of –
 - (a) the effect of the ask and act duty on specified public authorities,
 - (b) adding or removing specified public authorities, and
 - (c) how the ask and act duty is monitored.
- (3) The report published under subsection (1) must be laid before the Senedd.
- (4) The Welsh Ministers must take all reasonable steps to implement any recommendations made in a report published under subsection (1).
- (5) In exercising its functions under this section, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.”

Adran 21, tudalen 24, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

[] Dyletswydd i lunio, cyhoeddi a rhoi ar waith adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddyletswydd i ofyn a gweithredu

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd 2031, lunio a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith adran 94A o’r Ddeddf hon.
- (2) Rhaid i’r adroddiad gynnwys asesiad o –
 - (a) effaith y ddyletswydd gofyn a gweithredu ar awdurdodau cyhoeddus penodedig,
 - (b) ychwanegu neu ddileu awdurdodau cyhoeddus penodedig, ac
 - (c) sut y monitrir y ddyletswydd gofyn a gweithredu.
- (3) Rhaid i’r adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1) gael ei osod gerbron y Senedd.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i roi ar waith unrhyw argymhellion a wneir mewn adroddiad a gyhoeddir o dan is-adran (1).
- (5) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyfryw bersonau ag y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.”

Sian Gwenllian

47

Section 21, page 25, after line 3, insert –

- ‘(2B) The Welsh Ministers must issue guidance to a specified public authority, on how the specified public authority should exercise its functions under section 94A.”

Adran 21, tudalen 25, ar ôl llinell 4, mewnosoder –



‘(2B) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod cyhoeddus penodedig, ar sut y dylai’r awdurdod cyhoeddus penodedig arfer ei swyddogaethau o dan adran 94A.’’.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

***Sian Gwenllian**

48

Page 34, line 19, leave out section 35.

Tudalen 34, llinell 18, hepgorer adran 35.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

***Sian Gwenllian**

49

Section 38, page 38, leave out lines 8 to 10.

Adran 38, tudalen 38, hepgorer llinellau 8 hyd at 10.

WITHDRAWN/TYNNWYD YN ÔL

***Sian Gwenllian**

50

Section 38, page 38, line 15, leave out ‘, (ii)’.

Adran 38, tudalen 38, llinell 15, hepgorer ‘, (ii)’.

Sian Gwenllian

51

Section 38, page 38, line 18, leave out ‘may’ and insert ‘must’.

Adran 38, tudalen 38, llinell 18, hepgorer ‘may’ a mewnosoder ‘must’.

Sian Gwenllian

52

Section 38, page 38, after line 31, insert –

‘(f) enabling a person included in the register to have access to their information in the register electronically, in order to monitor the entry in the register in respect of that person.’

Adran 38, tudalen 38, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

‘(f) enabling a person included in the register to have access to their information in the register electronically, in order to monitor the entry in the register in respect of that person.’

Sian Gwenllian

53

Page 39, after line 30, insert a new section –

[] Publication of data

- (1) The Welsh Ministers must, by regulations, make provision about the publication by a local housing authority in Wales of data contained on –
 - (a) a common housing register, and
 - (b) a register required to be established and maintained by section 160E (accessible housing register).
- (2) The regulations must include provision –
 - (a) about how and when the data is to be published,
 - (b) requiring the data to be published at least once every 12 months, and
 - (c) requiring the data to be made available to the public electronically, whether on a website or other electronic facility.
- (3) For the purposes of this Part, “data” means any information contained on a common housing register or an accessible housing register which the Welsh Ministers consider is relevant for the purpose of allocating housing accommodation in Wales.’.

Tudalen 39, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd –

[] Cyhoeddi data

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch awdurdod tai lleol yng Nghymru yn cyhoeddi data sydd wedi eu cynnwys ar –
 - (a) cofrestr tai gyffredin, a
 - (b) cofrestr y mae’n ofynnol ei sefydlu a’i chynnal gan adran 160E (cofrestr tai hygyrch).
- (2) Rhaid i’r rheoliadau gynnwys darpariaeth –
 - (a) ynghylch sut a phryd y mae’r data i’w cyhoeddi,
 - (b) sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r data gael eu cyhoeddi o leiaf unwaith bob 12 mis , ac
 - (c) sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r data fod ar gael i’r cyhoedd yn electronig, pa un ai ar wefan neu gyfleuster electronig arall.
- (3) At ddibenion y Rhan hon, ystyr “data” yw unrhyw wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar gofrestr tai gyffredin neu gofrestr tai hygyrch y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn berthnasol at ddiben dyrannu llety tai yng Nghymru.’.

Sian Gwenllian

54

Page 39, after line 32, insert a new section –

[] Guidance in relation to financial assistance

In section 98 of the 2014 Act (guidance), after subsection (2) insert –

- “(2A) The Welsh Ministers must issue guidance to a local housing authority, for the purpose of providing financial assistance by way of a guarantee of the performance of any obligation owed to or by specified persons.
- (2B) Before issuing guidance under subsection (2A) the Welsh Ministers must consult –
 - (a) local housing authorities, and

(b) any other persons as they consider appropriate.”.

Tudalen 39, ar ôl llinell 32, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau mewn perthynas â chymorth ariannol

Yn adran 98 o Ddeddf 2014, (canllawiau), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –

“(2A) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdod tai lleol, at ddiben darparu cymorth ariannol fel gwarant o gyflawni unrhyw rwymedigaeth sy’n ddyledus i bersonau penodedig neu gan bersonau penodedig.

(2B) Cyn dyroddi canllawiau o dan is-adran (2A), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –

(a) awdurdodau tai lleol, a

(b) unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol.”.

Sian Gwenllian

55

Schedule 1, page 42, line 2, after ‘under’, insert ‘section [section to be inserted by amendment 53] (regulations in relation to publication of data) and’.

Atodlen 1, tudalen 42, llinell 2, ar ôl ‘under’, mewnosoder ‘section [adran i’w mewnosod gan welliant 53] (regulations in relation to publication of data) and’.

***Sian Gwenllian**

56

Gyda chefnogaeth / Supported by: Joel James

Schedule 1, page 45, after line 24, insert –

““Police force” (“Heddlu”) has the meaning given by section 101 of the Police Act 1996;”’.

Atodlen 1, tudalen 46, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

“mae i “heddlu” (“police force”) yr ystyr a roddir i “police force” gan adran 101 o Ddeddf yr Heddlu 1996;”’.